



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Uwchradd Yr Eglwys Newydd**

**Heol Penlline  
Yr Eglwys Newydd  
Caerdydd  
CF14 2XJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant  
yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Yr Eglwys Newydd

Enw'r darparwr	Ysgol Uwchradd Yr Eglwys Newydd
Awdurdod lleol	Cyngor Caerdydd
Iaith y darparwr	Saesneg
Math o ysgol	Uwchradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	2450
Disgyblion o oed ysgol statudol	2013
Nifer yn y chweched dosbarth	436
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 21.2%)	17.4%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 14.8%)	6.6%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	0.2%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	3.4%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2023
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	04/01/2016
Dyddiad dechrau'r arolygiad	04/12/2023

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru:  
[fysgolleol.llyw.cymru](http://fysgolleol.llyw.cymru)

- a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Uwchradd Yr Eglwys Newydd yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, a staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Er ei bod yn ysgol fawr, mae staff yn ystyried disgyblion yn unigolion. Mae'r ysgol yn teilwra'i gofal, ei chymorth a'i harweiniad yn effeithiol ac yn darparu ystod eang o gyrsiau a llwybrau sy'n diwallu anghenion bron pob un ohonynt. Mae'r cymorth ar gyfer lles disgyblion a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gryfderau sylweddol. Mae disgyblion sy'n mynychu canolfan arbenigol yr awdurdod lleol, Tŷ Calon, yn mwynhau'r ysgol, yn gwneud cynnydd cryf ac yn cyflawni'n dda.

Mae'r pennaeth a benodwyd yn ddiweddar, a'i uwch dîm arweinyddiaeth, yn arwain yr ysgol yn bwrpasol trwy gyfnod o newid. Gan gadw'r arfer dda sefydledig mewn llawer o feysydd o waith yr ysgol, mae uwch arweinwyr yn ymestyn ac yn datblygu strwythurau a phrosesau i sicrhau bod y cwricwlwm a'r addysgu yn diwallu anghenion ac uchelgeisiau disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio ymagwedd wedi'i llywio gan ymchwil at y datblygiadau hyn, gan sicrhau bod y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei weithredu â gofal ac ystyriaeth a bod athrawon yn cael eu cynorthwyo i ddatblygu eu harfer gyda chyfleoedd dysgu proffesiynol helaeth. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r gwaith hwn, a strategaethau a roddwyd ar waith yn ddiweddar, er enghraifft i gynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gynyddol mewn llythrennedd a rhifedd.

Pan mae'r addysgu'n gryf, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae gan yr athrawon hyn wybodaeth bynciol dda iawn ac maent yn cynllunio profiadau dysgu llwyddiannus yn fedrus. Mewn lleiafrif o achosion, er bod athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd rhesymol i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i ennill eu cymwysterau, nid ydynt bob amser yn eu herio'n ddigon da i ymestyn eu meddwl a dyfnhau eu dysgu. Mae arweinwyr wedi ymrwymo i wella'r ysgol ac yn mireinio trefniadau ar gyfer gwerthuso ansawdd y dysgu a'r addysgu. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn bob amser yn canolbwyntio'n ddigon craff ar effaith y ddarpariaeth ar gynydd disgyblion.

Mae uwch arweinwyr yn gweithio gyda diben moesol cryf ac wedi datblygu ystod o strategaethau gwerthfawr i gynorthwyo disgyblion a theuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan dlodi. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb a chyflawniad y disgyblion hyn.

Mae'r ysgol yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i fynd i'r afael ag ychydig o bryderon ynghylch iechyd a diogelwch a drafodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Argymhellion

- A1 Parhau i weithio gyda'r awdurdod lleol i fynd i'r afael â'r pryderon ynghylch iechyd a diogelwch a drafodwyd yn ystod wythnos yr arolygiad

- A2 Mireinio prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant i ganolbwyntio'n fanwl gywir ar y meysydd sydd angen eu gwella
- A3 Gwella ansawdd yr addysgu a defnyddio asesu i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion
- A4 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gynyddol a'u cydlynu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas, o leiaf, yn eu dysgu. Mewn gwrsi lle mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da, yn enwedig wrth ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth sy'n benodol i bwnc. Mae ychydig ohonynt yn gwneud cynnydd cryf. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd digonol. Yn aml, mae hyn oherwydd diffygion yng nghynllunio athrawon. At ei gilydd, nid yw mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd digonol yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Yn gyffredinol, mae hyn oherwydd bod athrawon yn canolbwyntio gormod ar baratoi disgyblion ar gyfer arholiadau yn hytrach na datblygu eu gallu i gymhwyso'u medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn ystod o gyd-destunau addas. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cysylltiadau effeithiol a pherthnasol â dysgu blaenorol ac yn cymhwyso'r rhain i gyd-destunau newydd yn briodol. Er enghraifft, mewn mathemateg, mae disgyblion yn defnyddio'u gwybodaeth am symleiddio mynegiannau i'w helpu i ddatrys hafaliadau, neu mewn Saesneg, mae disgyblion yn trafod perthnasedd ymddygiadau cymeriadau mewn testunau llenyddol.

Mewn gwrsi, mae llawer o ddisgyblion yn gwranddo'n astud ar eu hathrawon. Er enghraifft, mewn ieithoedd tramor modern, mae disgyblion yn talu sylw manwl wrth gyfieithu brawddegau Ffrangeg sy'n cael eu darllen ar goedd gan eu hathro i Saesneg. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn cyfrannu'n hyderus ac yn frwdfrydig mewn trafodaethau dosbarth. Mae llawer o ddisgyblion yn mynegi eu syniadau ar lafar ac yn rhoi rhesymau am eu hatebion, er enghraifft wrth drafod stereoteipio o ran rhywedd, ac yn cysylltu hyn â storïau Ariadne a Thesews mewn mytholeg Roegaid. Mae llawer ohonynt yn datblygu ystod eang o eirfa sy'n benodol i bwnc, er enghraifft wrth roi adborth gwerthfawr a manwl gywir ar lafar i'w gilydd am eu perfformiadau cerddorol. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn amharod i siarad mewn gwrsi a lleiafrif ohonynt yn rhoi ymatebion annatblygedig byr yn unig i gwestiynau athrawon.

Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth ddarllen ar goedd i'r dosbarth ac yn gallu gwneud hynny â phwyslais a mynegiant priodol. Mae llawer ohonynt yn ymgymryd â gweithgareddau darllen sylfaenol fel brasddarllen a bwrw golwg yn fedrus, ac maent yn dod o hyd i ffeithiau, ac yn eu dethol, o amrywiaeth o destunau yn llwyddiannus. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn cymhathu gwybodaeth o ystod o destunau i ysgrifennu paragraffau byr yn effeithlon ac yn fedrus. Maent yn galw gwybodaeth i gof ac yn strwythuro'u syniadau'n dda, er enghraifft mewn celf wrth dynnu ynghyd nodweddion allweddol bywyd a gwaith Georgia O'Keeffe gyda'i gilydd yn grynoded byr ac addysgiadol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn ei chael yn anodd ymgysylltu â thestunau. At ei gilydd, nid yw mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio ystod ddigonol o strategaethau darllen i gefnogi eu dysgu.

Pan mae athrawon yn darparu cymorth priodol, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd, ac yn strwythuro'u hysgrifennu'n briodol, ar y cyfan. Mae ychydig ohonynt yn cyfoethogi cynnwys ac effeithiolrwydd eu hysgrifennu trwy fabwysiadu technegau amrywiol a nodweddion arddulliadol y maent wedi dod ar eu traws yn eu darllen. Mewn ychydig o bynciau, mae ysgrifennu estynedig disgyblion yn canolbwyntio gormod ar gynnwys gwybodaeth ar draul cymhwyso neu fireinio'u medrau ysgrifennu, fel llunio dadl resymegol. Ar draws yr holl bynciau, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sylfaenol dro ar ôl tro yn eu sillafu, eu hatalnodi a'u gramadeg. Mae hyn yn cynnwys peidio â defnyddio priflythrennau ar ddechrau brawddeg neu wrth ysgrifennu enwau lleoedd. Yn aml, nid yw athrawon yn cywiro hyn.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau rhif sylfaenol cadarn. Maent yn defnyddio pedair rheol rhif yn hyderus ac yn gywir, er enghraifft wrth weithio gyda ffracsiynau a phan fyddant yn cyfrifo treth incwm. Mae llawer ohonynt yn cymhwyso'r medrau hyn mewn ystod o brofiadau dysgu yn briodol, er enghraifft, wrth amcangyfrif swm y cynhwysion mewn pecyn a chymharu hyn â'r swm a nodir mewn rysâit. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn tynnu llun graffiau yn briodol, gan ddefnyddio confensiynau cywir. O roi'r cyfle iddynt, maent yn disgrifio ac yn dadansoddi eu graffiau yn gywir gan ddefnyddio data perthnasol i gefnogi eu hesboniadau'n dda, er enghraifft pan fyddant yn dadansoddi graffiau amser cyflymder mewn gwyddoniaeth. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae disgyblion yn cyflwyno graffiau wedi'u llunio'n wael, ac nid ydynt yn cymryd digon o ofal yn plotio pwyntiau neu'n labelu echelau. Mae ychydig o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau'n dda mewn cyd-destunau dilys wrth ddatrys problemau. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn datblygu nac yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn gynyddol ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso ystod addas o fedrau digidol yn dda mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol. Mewn gwersi cyfrifiadura, mae disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth am godio a rhaglennu yn llwyddiannus. Mae disgyblion hyn yn gwneud dewisiadau perthnasol wrth ddefnyddio meddalwedd i wella'u gwaith, er enghraifft wrth drin ffotograffau digidol i gyfleu ystyr, neu ddewis cymwysiadau i greu cyfansoddiadau gwreiddiol mewn cerddoriaeth.

O roi cyfleoedd iddynt, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn hyderus. Mewn celf, drama a cherddoriaeth, er enghraifft, maent yn datblygu ystod eang o ymagweddau cynyddol soffistigedig at ddylunio, creu a pherfformio â medr a dychymyg. Pan mae addysgu medrus yn annog disgyblion i ddatblygu eu meddwl, mae llawer ohonynt yn dangos medrau datrys problemau effeithiol neu'n creu

cysylltiadau creadigol. Er enghraifft, mewn Cymraeg, maent yn ystyried cysylltiadau ag ieithoedd eraill i atgyfnerthu eu dysgu, neu mewn gwyddoniaeth, maent yn rhagfynegi sut mae ensymau yn effeithio ar gyfradd llif pectin.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda mewn gwersi chwaraeon a ffitrwydd, er enghraifft wrth ymarfer rheolaeth a chydbwysedd y corff i greu dilyniannau o symudiadau mewn gymnasteg. Mewn ystod addas o bynciau, mae disgyblion yn mireinio eu medrau echddygol manwl, er enghraifft wrth ymarfer trin cyfarpar yn ofalus yn ystod arbrofion.

Mewn gwersi Cymraeg, mae llawer o ddisgyblion yn dangos cywirdeb wrth ynganu geirfa newydd ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnal sgysiau byr yn Gymraeg mewn parau neu grwpiau. Mae safon Cymraeg ysgrifenedig llawer o ddisgyblion yn dda, ar y cyfan, o ystyried eu hoedran a'u gallu, er bod lleiafrif ohonynt yn gwneud camgymeriadau esgeulus. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn strwythuro paragraffau estynedig yn Gymraeg yn effeithiol, er enghraifft pan fydd Blwyddyn 10 yn ysgrifennu darnau yn mynegi barn ar bwysigrwydd cyfleoedd i ddysgu Cymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn nosbarthiadau arbenigol yr awdurdod lleol (LASC), Tŷ Calon, yn gwneud cynnydd cryf yn unol â'u targedau unigol. Maent yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd, creadigol a bywyd yn dda iawn mewn ystod o gyd-destunau dilys. Maent yn gweithio'n llwyddiannus tuag at ennill cymwysterau perthnasol.

Yn y chweched dosbarth, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. At ei gilydd, maent yn dangos diddordeb ac ymroddiad yn y cyrsiau a ddewiswyd ganddynt ac yn ymroi'n dda i'w hastudiaethau. Maent yn cyfathrebu'n glir a gydag aeddfedrwydd ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae llawer ohonynt yn mynegi eu syniadau'n huawdl, er enghraifft mewn gwersi Saesneg wrth drafod eu meddyliau ar 'The Handmaid's Tale', a sut gallai'r awdur fod wedi cael ei dylanwadu gan destunau eraill.

### **Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae llawer o ddisgyblion yn Ysgol Uwchradd Yr Eglwys Newydd yn mwynhau'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo eu bod yn cael eu parchu ac maent yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol â staff a disgyblion, fel ei gilydd. Maent yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canmol y cymorth a gânt gan eu hathrawon a'r timau cynnydd, ac yn hyderus wrth ofyn am gymorth os oes ganddynt unrhyw bryderon.

Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r ystod eang o gyfleoedd cynhwysol a gânt i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain. Trwy aelodaeth o chwe grŵp gwella'r ysgol, mae disgyblion wedi dechrau cael eu cynnwys ym mhob agwedd ar wella'r ysgol.

Mae mwyafrif y disgyblion o'r farn fod yr ysgol yn gwrando ar eu barn, er enghraifft wrth ddatblygu'r weledigaeth ar gyfer y cwricwlwm. Caiff disgyblion effaith gadarnhaol ar ddatblygiadau'r ysgol, yn enwedig sefydlu'r system wobrau newydd.

Trwy eu hymnglymiad mewn ystod eang o waith elusennol, fel y ganolfan rhoddi, mae disgyblion yn datblygu'n dda i fod yn ddinasyddion moesegol. Mae cyfraddau cyfranogiad disgyblion yn uchel mewn ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol sy'n eu helpu i fod yn unigolion iach a hyderus. Mae'r clwb pêl-droed merched, y côr ieuencid a'r clwb drama, yn arbennig, wedi dod yn gynyddol boblogaidd.

Mewn gwarsi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch tuag at eu hathrawon a'u cyfoedion. Maent yn barod i ymgysylltu â dysgu gyda'u cyfoedion, ac o roi'r cyfle iddynt, mae llawer ohonynt yn gweithio'n annibynnol. Mae gallu disgyblion i weithio â dyfalbarhad a gwydnwch mewn ychydig o bynciau fel addysg gorfforol a dylunio a thechnoleg yn gryfder. Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus i siarad am eu gwaith a'u cynnydd. O roi cyfleoedd iddynt weithio mewn grwpiau bach ac mewn parau, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n effeithiol â'u cyfoedion ac yn gwrandao ar ei gilydd yn ofalus. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn dangos balchder yn eu gwaith sydd wedi'i gyflwyno'n dda.

Wrth symud o gwmpas yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn rhyngweithio'n barchus â staff, cyfoedion ac ymwelwyr. Maent yn ymddwyn yn dda yn ystod amseroedd egwyl ac amser cinio, ac maent yn gwrtais â staff. Mae llawer o ddisgyblion yn awyddus i ymgymryd â'u hastudiaethau, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyrraedd gwarsi'n brydlon.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae eu brwdfrydedd ar gyfer dysgu Cymraeg yn hynod nodedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gefnogol i'w gilydd ac yn rhyngweithio mewn modd ystyriol ac aeddfed. Mae ymddygiad disgyblion yn Tŷ Calon yn eithriadol o dda, ac maent yn siarad yn wresog ynglŷn â faint maent yn caru dod i'r ysgol.

Adlewyrchir mwynhad disgyblion o'r ysgol yn eu presenoldeb. Rhwng blynyddoedd academaidd 2018-2019 a 2022-2023, disgynnodd cyfradd presenoldeb yr ysgol o swm llai na'r hyn a welwyd yn genedlaethol. Y llynedd, roedd ymhell uwchlaw cyfradd presenoldeb ysgolion tebyg, er ei bod yn parhau i fod islaw lefelau cyn y pandemig. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae'r bwlch rhwng presenoldeb bechgyn a merched yn fach iawn.

### **Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae gan bron bob un o'r athrawon berthnasol gweithio cadarnhaol â'u disgyblion, maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn sefydlu amgylchedd gweithio gofalgarg. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn cynorthwyo disgyblion yn dda i ddatblygu eu defnydd o derminoleg pwnc.

Mae mwyafrif yr athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau priodol sy'n ymgysylltu â disgyblion yn briodol ac yn adeiladu ar ddysgu blaenorol. Maent yn darparu lefel briodol o her ac yn modelu gwaith yn dda i sicrhau bod disgyblion yn deall gofynion y dasg a'r safon waith ddisgwyliedig. Mae llawer o athrawon yn rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir.

Mae ychydig o athrawon sy'n meddu ar wybodaeth bynciol ragorol yn ennyn brwdfrydedd disgyblion ac yn rhoi dysgu yn ei gyd-destun yn dda. Maent yn

cynllunio'u gwersi gyda ffocws clir ar yr hyn y mae angen i ddisgyblion ei ddysgu, ac yn addasu eu gwersi'n fedrus i weddu i anghenion gwahanol ddisgyblion. Mae'r athrawon hyn yn ymgysylltu â disgyblion yn effeithiol trwy amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys cyflwyniadau cyfareddol i'r gwersi, cysylltiadau clir â dysgu blaenorol a modelu hyfedr. Yn y gwersi hyn, defnyddir gweithgareddau ac adnoddau yn effeithiol i wella ac ymestyn dysgu'r disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gweithio'n annibynnol ac yn darparu strwythurau defnyddiol i roi cymorth iddynt wneud hynny.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon bob amser yn ystyried dysgu disgyblion yn ddigon da wrth gynllunio gweithgareddau. Yn yr achosion hyn, mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyfyngedig yn unig i ddatblygu medrau disgyblion, neu gynllunio tasgau sy'n cyfyngu ar ddysgu a meddwl annibynnol disgyblion. Er enghraifft, maent yn darparu taflenni gwaith sy'n rhy strwythuredig, yn gofyn i ddisgyblion gwblhau gweithgareddau ailadroddus neu'n gofyn iddynt gopïo o'r bwrdd. Nid yw'r athrawon hyn bob amser yn ystyried anghenion disgyblion â gwahanol alluoedd. Nid ydynt yn darparu her ddigonol na'r cymorth angenrheidiol i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gwneud y cynnydd disgwylidig neu ddyfnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Yn gyffredinol, nid oes ganddynt ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Nid yw ychydig o athrawon yn defnyddio strategaethau rheoli ystafell ddosbarth yn effeithiol; er enghraifft, nid ydynt bob amser yn herio disgyblion pan fyddant yn aflonyddgar, neu maent yn caniatáu i ddisgyblion siarad tra byddan nhw'n siarad.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gwneud defnydd rheolaidd o dechnegau holi addas i wirio gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Maent yn mynd o amgylch y dosbarth yn annog disgyblion i weithio, gan roi sicrwydd iddynt, a datblygu eu hyder. Mae lleiafrif o athrawon yn defnyddio technegau holi'n fedrus i brocio dealltwriaeth disgyblion, ac yn yr enghreifftiau gorau, maent yn mynd i'r afael â chamdybiaethau disgyblion yn dda. Mae lleiafrif o athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o strategaethau fel byrddau gwyn bach i fonitro cynnydd a dealltwriaeth disgyblion.

Mae lleiafrif o athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig buddiol sy'n nodi'n glir sut gall disgyblion wella'u gwaith. Maent yn gofyn cwestiynau defnyddiol i ddisgyblion ymateb iddynt, neu'n rhoi mwy o gwestiynau iddynt ymarfer neu wella'u dealltwriaeth. Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wella'u gwaith. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae athrawon yn canmol yn rhy hael.

Yn Tŷ Calon, mae athrawon a staff cymorth yn datblygu perthnasoedd cynnes a gofalgwr gyda disgyblion. Maent yn darparu ystod eang o brofiadau pwrpasol sy'n hynod effeithiol yn paratoi disgyblion ar gyfer eu camau nesaf mewn dysgu.

Mae'r ysgol wedi cynllunio gweledigaeth gref a set o egwyddorion ar gyfer datblygu'r Cwricwlwm i Gymru trwy 'The Progression of Alex', sy'n egluro'i nodau ar gyfer disgybl yn Ysgol Uwchradd Yr Eglwys Newydd. Mae hyn yn darparu strwythur gwerthfawr, sy'n edrych ar daith cynnydd disgybl trwy'r cwricwlwm newydd i fyny i 2029. Mae'r ysgol wedi ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys disgyblion, staff, rhieni a gofalgwyr yn ystod ei phroses cynllunio'r cwricwlwm. Fodd bynnag, gwnaed gwaith cyfyngedig gydag ysgolion cynradd partner i rannu'r weledigaeth hon ac i ddatblygu continwwm medrau disgyblion. Mae'r ysgol wedi defnyddio ymagwedd gref, wedi'i harwain gan ymchwil, at brofi gwahanol fodelau o



weithio trawsgwricwlaidd, ac wedi gwerthuso cryfderau ei dulliau cyn rhoi'r cwricwlwm ar waith o fis Medi 2023.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi defnyddio ymagwedd fwy strategol at gynllunio dilyniant medrau ar draws y cwricwlwm. Mae'r gwaith i gefnogi medrau llafaredd disgyblion yn cael effaith gadarnhaol o fewn pynciau fel addysg gorfforol, drama, cerddoriaeth a chelf. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd, wedi'i datblygu'n ddigonol.

Ceir ymagwedd addas at ddatblygu gwerthfawrogiad disgyblion o ddiwylliant Cymru trwy amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys dathlu Diwrnod Shwmae Su'mae a Dydd Miwsig Cymru, a pharatoi ar gyfer Gwobr Efydd Siarter Iaith. At ei gilydd, y tu allan i wersi Cymraeg, mae cyfleoedd i ddefnyddio a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn gyfyngedig.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cytbwys a chynhwysol sy'n diwallu anghenion bron pob un o'r disgyblion ar draws yr holl gyfnodau allweddol. Rhoddir cymorth ac arweiniad cynhwysfawr i'r holl ddisgyblion wneud penderfyniadau gwybodus am eu hastudiaethau a'u llwybrau yn y dyfodol, gyda chymorth gan staff yr ysgol, cyflogwyr lleol a sefydliadau academaidd. Mae'r cymorth a'r cyfleoedd a roddant i ddisgyblion chweched dosbarth sy'n gwneud cais ar gyfer eu camau nesaf mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, yn gryfder nodedig. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o gyrsiau academaidd yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth, ac yn datblygu ei darpariaeth o ystod ehangach o gyrsiau galwedigaethol i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion yn briodol. Mae'r ysgol wedi ehangu arlwy'r cwricwlwm yn y sector ôl-16 trwy bartneriaeth lwyddiannus â dwy ysgol uwchradd arall yng Nghaerdydd. I'r disgyblion mwyaf bregus yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gyda darparwyr allanol i ddarparu cwricwlwm amgen gwerthfawr. Ceir casgliad cryf a gwerthfawr o gyfleoedd allgyrsiol a chwaraeon. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau chwaraeon, clwb parchu hawliau, gŵyl y dramodwyr ifanc, aelodaeth o'r côr siambr a'r clwb gwau.

Mae'r ysgol wedi adolygu ac ail-lansio'i darpariaeth 'Perthynas, Lles ac Iechyd' yn ddiweddar. Mae'r rhaglen les fuddiol hon wedi cael ei chynllunio'n ofalus i greu cwricwlwm sy'n briodol i oedran. Cyflwynir y rhaglen hon yn llwyddiannus i'r holl ddisgyblion yn ystod gwrs les, ac fe gaiff disgyblion gyfarwyddyd i ystyried themâu wythnosol yn ystod amser myfyrio ar ddiwedd pob diwrnod ysgol. Mae'r ysgol wedi hyfforddi pob un o'r tiwtoriaid i gyflwyno'r rhaglen, ac wedi creu timau yn ddiweddar i sicrhau parhad a phrofiadau cadarnhaol ar gyfer y disgyblion. Ar draws y cwricwlwm, caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr hefyd i ddysgu am hanes a phrofiadau cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Hefyd, maent yn datblygu eu dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda trwy ystod o gyfleoedd gwerthfawr fel y clybiau 'Parchu Hawliau' a LHDTTC+.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae Ysgol Uwchradd Yr Eglwys Newydd, gydag ethos gwresog a gofalgarn yn sail iddi, yn darparu lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer ei disgyblion a'i staff. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel, a staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r ysgol yn meithrin ethos cynhwysol yn seiliedig

ar berthnasol cadarnhaol a pharch. Mae holl aelodau cymuned yr ysgol yn ymfalchïo yn eu rhan ym mywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth cynhwysfawr ar gyfer anghenion iechyd emosiynol, corfforol a meddyliol a lles yr holl ddisgyblion. Mae'r cymorth a ddarperir ar gyfer lles disgyblion bregus yn gryfder arbennig. Mae arweinydd yn gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth berthnasol o amrywiaeth o ffynonellau i nodi disgyblion bregus a monitro'u lles yn fanwl. Er enghraifft, maent yn gweithio'n effeithiol gydag Operation Encompass, sef partneriaeth ddiogelu gyda'r heddlu, i ddarparu cymorth buddiol ar gyfer disgyblion sydd wedi wynebu trais domestig ar yr aelwyd. Mae pob un o'r disgyblion yn deall at bwy i droi os bydd angen cymorth arnynt, ac yn derbyn gofal gwerthfawr trwy'r strwythur bugeiliol eang. Mae system gwirio lles yr ysgol yn helpu staff i nodi unrhyw rwystrau rhag dysgu ac yn darparu cymorth buddiol ar gyfer unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae hyn yn eu helpu i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i rieni gyfarfod â rhieni eraill a staff i ehangu eu strategaethau i gefnogi iechyd meddwl a lles cadarnhaol eu plentyn.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid i gefnogi diogelwch a lles ei disgyblion, a'u cynorthwyo â'u datblygiad personol. Er enghraifft, mae banc lleol yn cyflwyno gwersi trin arian i arfogi disgyblion â'r medrau sy'n berthnasol i'w sefyllfa bresennol, ac yn meithrin arferion y gallant eu defnyddio yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae'r ysgol yn gweithredu ystod fuddiol o strategaethau i helpu disgyblion i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein, ac wrth wneud dewisiadau iach am ffordd o fyw.

Mae'r rhaglenni lles a myfyrio wedi'u cynllunio'n dda, ac mae disgyblion yn cael cymorth buddiol â datblygu eu dealltwriaeth gymdeithasol, foesol, ysbrydol a diwylliannol. Er enghraifft, yn y rhaglen les, mae disgyblion yn archwilio testunau fel gonestrwydd, empathi a chyfiawnder, ac mae'r ysgol yn darparu amser myfyrio dyddiol gwerthfawr i ddisgyblion ystyried materion cyfoes o fewn y gymuned, Cymru a'r byd ehangach.

Holir barn disgyblion yn eang, ac o ganlyniad, cânt effaith gadarnhaol ar agweddau ar y cymorth a'r arweiniad a gynigir gan yr ysgol, fel nodi testunau perthnasol i'w harchwilio o fewn y rhaglen les. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn elwa ar ddysgu am destunau sydd fwyaf perthnasol i'w grŵp oedran a'r rhai sy'n achosi'r pryder mwyaf iddynt.

Ynghyd ag aelodaeth o fforwm yr ysgol a grwpiau gwella'r ysgol, mae amrywiaeth eang o gyfleoedd arwain yn agored i'r holl ddisgyblion yn yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn mentora cyfoedion a'r grŵp llywio parchu hawliau, ac yn gweithredu fel llysgenhadon ffoaduriaid ac iaith.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb da ac yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid i fonitro a mynd i'r afael â phresenoldeb gwael. Mae wedi datblygu strategaethau llwyddiannus i gynorthwyo disgyblion sy'n orbryderus ynglŷn â mynd i'r ysgol i ailintegreiddio i wersi, ac mewn rhai achosion, maent yn ymweld â theuluoedd yn eu cartrefi. Mae arweiniad cydlynus a gwerthfawr ar yrfaeod yn helpu disgyblion a rhieni i archwilio dewisiadau gyrfaoedd yn y dyfodol. Mae'r arweiniad ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn bwrpasol, ac mae rhieni a

disgyblion yn gwerthfawrogi'r cymorth gan y cynghorydd gyrfaoedd ADY yn ystod eu hadolygiadau blynyddol.

At ei gilydd, mae'r cymorth ar gyfer disgyblion ag ADY yn gryfder nodedig yn yr ysgol. Mae staff yn deall anghenion unigol y disgyblion hyn yn dda, ac yn sicrhau eu bod yn elwa ar ymyriadau i'w cynorthwyo'n academaidd ac yn gymdeithasol. Mae'r ysgol yn cynnig trefniadau gwerthfawr i gynorthwyo disgyblion i bontio i fywyd oedolyn, hyfforddiant, a gwaith; er enghraifft, mae staff yn gweithio'n agos â'r bwrdd iechyd lleol i gynnig llwybr ystyrlon i gyflogaeth ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae'r ysgol wedi datblygu ei darpariaeth yn briodol yn unol â gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Mae gan ddisgyblion ag ADY broffiliau un dudalen defnyddiol sy'n nodi gwybodaeth allweddol bwysig am sut orau y gall staff eu cynorthwyo. Mae cynlluniau datblygu unigol disgyblion yn effeithiol ac yn cynnwys targedau a champau manwl i'w cynorthwyo i wneud cynnydd. Mae staff yn Tŷ Calon yn adnabod disgyblion yn dda ac yn ymateb yn fedrus i anghenion unigol pob disgybl. Maent yn monitro cynnydd disgyblion yn agos yn erbyn eu targedau ac yn rhoi adborth sensitif a gwerthfawr iddynt. O ganlyniad, caiff disgyblion gymorth a chynghor anogol, pan fydd angen.

Mae'r ysgol yn ymchwilio'n brydlon i unrhyw achosion honedig o fwlio. Mae'n cadw cofnodion manwl ac yn cyflwyno dulliau adferol yn effeithiol i gynorthwyo'r disgyblion dan sylw. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer cofnodi ac atgyfeirio materion diogelu yn drylwyr. Mae'n darparu hyfforddiant diogelu perthnasol a rheolaidd ar gyfer ei holl staff, gan gynnwys hyfforddiant ar sut i adnabod arwyddion o ddisgyblion yn cael eu radialeiddio, a sut i atgyfeirio unrhyw bryderon. O ganlyniad, mae staff a llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'u rolau mewn diogelu disgyblion. Caiff trefniadau amddiffyn plant eu deall yn dda gan bron bob un o'r staff, ac mae prosesau clir a thrylwyr ar waith i nodi plant sydd mewn perygl o niwed a chynorthwyo'r rhai a allai fod wedi profi niwed sylweddol.

Mae'r ysgol yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i fynd i'r afael â materion iechyd a diogelwch a drafodwyd yn ystod wythnos yr arolygiad.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd am dymor yn unig, er y bu'n aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth yn y gorffennol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi bod yno ers sawl blwyddyn. Dros gyfnod, mae wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n cwmpasu darparu'r cyfleoedd dysgu gorau ar gyfer pob un o'r disgyblion, ochr yn ochr â sicrhau eu lles. Yn ystod y cyfnod pontio hwn, mae'n dechrau rhannu'r weledigaeth hon yn briodol ac fe gaiff ei gynorthwyo'n fedrus gan ei uwch dîm arweinyddiaeth. Mae arweinwyr ar bob lefel yn gweithio'n dda i hyrwyddo diwylliant diogelu'r ysgol a chadw disgyblion yn ddiogel, er nad ydynt wedi llwyddo i wella ansawdd yr addysgu, yn cynnwys sefydlu ymagwedd glir a chydlynus at ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol.

Dros gyfnod, roedd rolau a chyfrifoldebau o fewn yr uwch dîm arweinyddiaeth wedi dod yn anghyfartal, ac mae'r ysgol wedi ailstrwythuro uwch arweinyddiaeth yn ddiweddar i gefnogi ei huchelgais. Mae uwch arweinwyr yn deall blaenoriaethau presennol yr ysgol yn dda a sut gall eu rolau gyfrannu atynt. Mae'r ysgol hefyd yn ail

flwyddyn ailstrwythuro cyfrifoldebau addysgu a dysgu, sydd wedi cynnwys creu cyfadrannau i gefnogi rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith.

Mae arweinwyr cynnydd y cwricwlwm ac arweinwyr cynorthwyol yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r her a ddarperir gan eu harweinwyr cyfadran, eu harweinwyr cynnydd a'r uwch dîm. Ceir rhaglen gynhwysfawr o gyfarfodydd ar gyfer uwch arweinwyr ac arweinwyr canol i rannu gwybodaeth a thrafod agweddau ar waith yr ysgol. Er bod y cyfarfodydd yn ystyried anghenion disgyblion, nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddysgu ac addysgu. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn mynegi'n glir eu gweledigaeth a'u paratodau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid ydynt yn ddigon clir ynglŷn â sut i werthuso a gyrru gwelliant mewn addysgu a dysgu yn eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae'r ysgol yn esblygu ei hymagwedd at hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae arweinwyr yn nodi cwestiynau allweddol addas o gynllun gwella'r ysgol i arwain gweithgareddau gwerthuso. Er enghraifft, mae arweinwyr bugeiliol yn canolbwyntio'n werthfawr ar gwestiynau sy'n eu helpu i gasglu tystiolaeth am les disgyblion a sut i gynorthwyo disgyblion o aelwydydd incwm isel. Mae'r cwestiynau hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar feysydd pwysig yn narpariaeth yr ysgol ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad.

Mae uwch arweinwyr wedi sefydlu grwpiau gwerthfawr gwella'r ysgol (GGYau) i alluogi staff a disgyblion i ystyried agweddau ar waith yr ysgol a chyfrannu at brosesau gwerthuso. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith y gwaith hwn. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn defnyddio ystod briodol o brosesau sicrhau ansawdd fel teithiau dysgu, arolygon o ddisgyblion a staff a chraffu ar waith i gasglu tystiolaeth uniongyrchol. At ei gilydd, nid yw arweinwyr ar bob lefel yn gwerthuso effaith yr addysgu ar ddysgu a chynnydd disgyblion yn ddigon da. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn nodi'n fanwl gywir yr agweddau hynny sydd angen eu gwella, yn enwedig mewn addysgu ac mewn medrau disgyblion.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn briodol o gadarn ac yn cael eu deall gan staff. Mae rheoli perfformiad staff wedi'i gysylltu'n briodol â rhaglen dysgu proffesiynol yr ysgol ac wedi helpu datblygu rhai agweddau ar ddarpariaeth. Ceir prosesau gwerthfawr i gefnogi lles staff. Holir eu barn yn eang, ac maent yn gwerthfawrogi'r ffordd y gwrandewir arnynt. Mae'r ysgol wedi datblygu ystod o gyfleoedd gwerthfawr i staff gyfrannu at arferion gweithio'r ysgol trwy'r GGYau ac amrywiaeth o fentrau lles buddiol.

Rhoddir proffil priodol o uchel i ddysgu proffesiynol yn yr ysgol i gefnogi gwelliannau mewn agweddau pwysig ar ei gwaith, ac mae'n canolbwyntio'n briodol ar addysgu a dysgu. Mae'r cydweithio ag ystod o bartneriaid, gan gynnwys ysgolion cynradd clwstwr, ysgolion uwchradd Gogledd Caerdydd a'r consortiwm rhanbarthol, i rannu a datblygu arfer broffesiynol ymhellach, yn gryfder arbennig. Mae ffocws clir ar ddefnyddio strategaethau yn seiliedig ar dystiolaeth, y mae athrawon yn eu dewis a'u haddasu i weddu i anghenion eu pynciau a'u disgyblion. Mae staff yn gwerthfawrogi cyfleoedd i ymgymryd â hyfforddiant yn gysylltiedig â'u dilyniant gyrfa trwy reoli perfformiad, ac yn teimlo bod dysgu proffesiynol yn eu hannog i fod yn arloesol. Mae'r ysgol yn ysgol arweiniol ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon ym Mhartneriaeth Caerdydd, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu proffesiynol yn yr ysgol, yn enwedig o ran datblygu arfer ymchwil athrawon. Fodd

bynag, nid yw arweinwyr yn monitro a gwerthuso effaith dysgu proffesiynol yn ddigon trylwyr.

Mae gan y pennaeth, y rheolwr busnes a'r corff llywodraethol oruchwyliaeth gadarn o gyllid yr ysgol, ac maent yn llunio barnau cadarn i sicrhau bod blaenoriaethau gwella'r ysgol yn cael eu hariannu'n briodol. Mae'r rheolwr busnes yn monitro gwariant yn ofalus ac yn rheoli'r defnydd o gyllid grant yn dda.

Mae'r ysgol yn defnyddio ymagwedd strategol ac effeithiol at fynd i'r afael ag effaith tloedi ar gyrhaeddiad. Mae uwch arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r her sy'n wynebu'r gymuned leol, ac yn dechrau sefydlu diwylliant yn yr ysgol lle mae pob un o'r athrawon yn deall eu rôl yn y gwaith hwn. Mae'r ysgol yn defnyddio'r cyllid o'r Grant Datblygu Disgyblion i gefnogi ystod o fentrau gwerthfawr sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad a phresenoldeb disgyblion sydd wedi'u heffeithio gan dlodi.

Mae llywodraethwyr yn gefnogwyr ffyddlon i'r ysgol. Mae gan y corff llywodraethol amgyffrediad cadarn o'i gyfrifoldebau, gan gynnwys sicrhau trefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach, ac wedi sefydlu strwythur priodol i drefnu ei waith. Caiff llywodraethwyr eu hysbysu'n gynyddol dda ac maent yn craffu'n briodol ar faterion ariannol, cwricwlwm a staffio. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfle i gysylltu â chyfadranau ac mae'r trefniadau hyn yn eu helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o waith yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (<http://www.estyn.llyw.cymru/>)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru/](http://www.estyn.llyw.cymru/)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/02/2024